

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

# Cynhadledd i Athrawon ac Ymgynghorwyr Gyrfaol

Dydd Mercher 24 Mai 2023, 08:45 – 15:30
Prif Adeilad a Chanolfan Bywyd y Myfyrwyr

| | |
|---|---|
| **08:45 – 09:15** | **Cofrestru a lluniaeth** |
| **09:15 – 09:30** | **Croeso gyda Claire Morgan**,<br>Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr |
| **9:30 – 10:00** | **Mewn iawn bwyll - iechyd meddwl myfyrwyr yn 2023**<br>Mae'r siaradwr TEDx, yr awdwr a'r arbenigwr iechyd meddwl pobl ifanc, Dr Dominique Thompson, yn elwa ar ei dau ddegawd o brofiad clinigol yn y GIG i roi cipolwg ar yr heriau o ran iechyd meddwl y mae myfyrwyr yn eu hwynebu ac yn amlinellu'r hyn y gall ysgolion a cholegau ei wneud i helpu i baratoi eu myfyrwyr ar gyfer byd addysg uwch. |
| **10:00 – 10:15** | **Cymorth i Fyfyrwyr: o safbwynt Prifysgol Caerdydd**<br>Pennaeth y Gwasanaeth Iechyd a Lles Myfyrwyr, Gareth Hughes, yn trafod sut mae Prifysgol Caerdydd yn chwarae ei rhan wrth gefnogi lles ein myfyrwyr. |
| **10:15 – 11:00** | **UCAS: datblygiadau diweddar a'r 'daith i gael miliwn o ymgeiswyr'**<br>Mae demograffig pobl ifanc 16-19 oed yn tyfu o hyd ond beth mae hyn yn ei olygu i'r rheini sydd eisiau gwneud cais i fyd addysg uwch yn ystod y blynyddoedd i ddod? Ynghyd â rhoi diweddariad cyffredinol am UCAS, bydd Carys Willgoss (Prif Gynghorydd Polisi UCAS) yn ystyried yr hyn y bydd y cynnydd demograffig yn ei olygu hwyrach i'ch myfyrwyr. |
| **11:00 – 11:15** | **Egwyl** |
| **11:15 – 11:45** | **Gofynnwch i'r arbenigwr — rhowch eich cwestiynau i'r panel**<br>Yn dilyn diweddariad byr am dderbyniadau israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd, byddwn ni'n troi at ein panel o gynghorwyr arbenigol sydd wrth law i ateb eich cwestiynau. Hefyd, bydd y panel yn cynnwys myfyrwyr presennol sy'n gallu rhoi syniad o'r hyn yr hoffen nhw fod wedi'i wybod cyn gwneud cais i fynd i'r brifysgol. |



Canolfan Bywyd y Myfyrwyr newydd Prifysgol Caerdydd gwerth £50 miliwn

**11:45 – 12:30**

**Dewiswch un sesiwn o blith yr opsiynau canlynol:**

- **Codi dyheadau, cyflawni potensial**: y gefnogaeth sydd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd (Ehangu Cyfranogiad)
- **Datblygu rhaglenni addysg uwch/gyrfaol yn eich ysgol neu goleg**: sut gall adnoddau megis Unifrog helpu?
- **Defnyddio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd**: y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg
- **Sefydliad sy'n Fyd-eang go iawn**: trafodaeth bord gron myfyrwyr rhyngwladol a sesiwn holi ac ateb.

Edrychwch ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am y sesiynau grwpiau trafod (ceir gwybodaeth am bob un yn unigol)

**12:30 – 13:30**

**Cinio rhad ac am ddim a'r farchnad wybodaeth**

**13:30 – 14:00**

**Astudio a gwneud cais i astudio Meddygaeth, Deintyddiaeth a'r Gwyddorau Gofal Iechyd (gan gynnwys cyngor ar y gyfres o gyfweliadau byr - MMI - a chyllid gan y GIG)**

Mae Meddygaeth, Deintyddiaeth a'r Gwyddorau Gofal Iechyd yn adnabyddus am fod yn gyrsiau cystadleuol. Er mwyn eich helpu i roi'r cyngor diweddaraf un i'ch myfyrwyr, bydd ein tîm yn rhoi cipolwg ar gyfleoedd ariannu'r GIG, gwybodaeth am y cyrsiau, y gofynion mynediad, y broses ddethol a fformat y cyfweliad ym Mhrifysgol Caerdydd.

**14:00 – 15:30**

**Dewiswch un sesiwn o blith yr opsiynau canlynol:**

- **Yr Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg**: llwybrau newydd ym maes gofal llygaid yng Nghymru
- **Yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd**: Cadwraeth Gwrthrychau Amgueddfaol ac Archaeoleg
- **Ysgol Busnes Caerdydd**: cystadleuwch yn yr Ystafell Fasnachu!
- **Croeso i Abacws**: Dewch i ddysgu myrdd o bethau gyda Sioe Gêm Microbit yn yr Ysgol Cyfrifiadureg
- **Taith o amgylch y campws dan arweiniad myfyrwyr** gan gynnwys y cyfle i ymweld â chyfleusterau chwaraeon Campws Parc Cathays i gael gwybod rhagor am ein rhaglenni Perfformiad Uchel a'n rhaglenni chwaraeon arbenigol eraill.

Edrychwch ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth am y sesiynau grwpiau trafod (ceir gwybodaeth am bob un yn unigol)

**15:30**

**Ymadael**

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

**Sylwer:**

Mae'r rhaglen yn cael ei chwblhau ar hyn o bryd a hwyrach y caiff y testun ei ddiwygio. Ni allwn fod yn gyfrifol am unrhyw newidiadau neu gansladau y mae'n rhaid eu gwneud yn y rhaglen oherwydd ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth. Os caiff y gynhadledd ei gohirio neu ei chanslo, byddwn ni'n rhoi gwybod ichi drwy anfon ebost i'r cyfeiriad a roesoch inni. Os bydd yn rhaid inni ganslo/gohirio'r digwyddiad, ni fyddwn ni'n gallu ad-dalu costau teithio, gwesty na chostau cysylltiedig eraill yr ymwelwyr.